**COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR AC AR ZOOM DDYDD IAU, 2 MAWRTH 2023**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir G W Ratcliffe (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir B Baynham, D Bebb, M Beecham, S J Beecham, B Breeze, G Breeze, J Berriman, L Brighouse, A Cartwright, J Charlton, R Church, T Colbert, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, M J Dorrance, D Edwards, J Ewing, L George, J Gibson-Watt, I Harrison, K Healy, P James, A Jenner, A Jones, E A Jones, E Jones, G D Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, P E Lewis, W Lloyd, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Johnson-Wood, G Mitchell, G Morgan, G Morgan, WD Powell, G Preston, G Pugh, L Rijnenberg, L Roberts, C Robinson, E Roderick, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, J Brignell-Thorp, E Vaughan, C Walsh, J Wilkinson, A Williams, D H Williams, J M Williams ac S L Williams

| 1. | **YMDDIHEURIADAU** |
|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sir H Hulme, J Pugh a P Roberts a gan y Prif Weithredwr.

| 2. | **COFNODION** |
|---|---|

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8fed Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.

| 3. | **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** |
|---|---|

Datganwyd diddordeb ariannol gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts yn eitem 10 ar yr agenda mewn perthynas â chyflog uwch Cadeirydd y Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau.

Rhoddwyd caniatâd gan y Cyngor i Arweinydd Proffesiynol y Gwasanaethau cyflogaeth, y Rheolwr Craffu, Rheolwr y Cabinet a'r cyfieithydd aros yn y cyfarfod yn ystod y broses o ystyried y Datganiad Polisi Cyflog i gynorthwyo gyda rhedeg y cyfarfod.

| 4. | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** |
|---|---|

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Danny Bebb gan y Cadeirydd, ar enedigaeth ei fab. Nododd iddo ddosbarthu dwy wobr Barcud Arian i drigolion Powys i gydnabod eu gwasanaeth i'r gymuned.

## 5. CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD

Rhoddodd yr Arweinydd amlinelliad o rai o'r eitemau gwaith oedd ar y gweill yn ogystal â'r gwaith i lunio'r gyllideb. Cynhaliwyd Cynhadledd Tlodi Plant dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance, ar 8fed Chwefror. Roedd Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymweld â'r ganolfan deuluol newydd yn Y Drenewydd ar 17eg Chwefror. Nododd yr Arweinydd hefyd y byddai adeilad gyda 26 o fflatiau'n agor yn Y Drenewydd yr wythnos ganlynol, gan ychwanegu at stoc tai cymdeithasol y Cyngor. Nododd hefyd y byddai cyn aelodau'r lluoedd arfog yn cael gwarant o gyfweliad ar gyfer swyddi.

Nododd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol bod y cynllun Rhyddhad rhag Trethi Busnes ar gyfer busnesau Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch yn cael ei ymestyn gan Lywodraeth Cymru i 2023-24. Byddai'r Cabinet yn ystyried y cynllun ar 7fed Mawrth ac yn amodol ar ei gymeradwyo, byddai'n bosibl gwneud ceisiadau o 8fed Mawrth. Roedd manylion ar gael ar wefan y Cyngor, ac anogir busnesau i wneud cais i'r cynllun.

## 6. NODYN BRIFFIO'R PRIF WEITHREDWR

Byddai manylion yn cael eu dosbarthu trwy ebost.

## 7. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

7.1. **Cwestiwn i Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol gan Mike Hall**

**Fedrwch chi fy hysbysu beth yw'r cyllidebau gwariant wedi bod o 2010 i'r presennol, a pha wasanaethau sydd wedi cael toriadau? Gallwch gynnwys canrannau + neu – os bydd hynny o gymorth, a gallwch hefyd gynnwys codiadau yn nhreth y cyngor er mwyn cynnig safbwynt cynhwysfawr ar y cwestiwn.**

**YMATEB**

| Blwyddyn | Cyfanswm Cyllideb | Cynnydd yn Nhreth y Cyngor | Arbedion | Ceir rhagor o fanylion ar y cyllidebau, gan gynnwys manylion o ran toriadau i wasanaethau trwy'r dolenni isod |
|---|---|---|---|---|
| 2010/11 | £232.945m | 4.25% | £2.262m | https://powys.moderngov.co.uk/CeListDocuments.aspx?CommitteeId=149&MeetingId=2569&DF=28%2f01%2f2010&Ver=2 |
| 2011/12 | £233.060m | 2.99% | £5.365m | https://powys.moderngov.co.uk/CeListDocuments.aspx?CommitteeId=149&MeetingId=2580&DF=02%2f03%2f2011&Ver=2 |
| 2012/13 | £233.841m | 2.25% | £5.992m | https://powys.moderngov.co.uk/CeListDocuments.aspx?CommitteeId=149&MeetingId=2590&DF=01%2f03%2f2012&Ver=2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2013/14 | £248.238m | 2.75% | £21.985 m | https://powys.moderngov.co.uk/CeListDocuments.aspx?CommitteeId=149&MeetingId=2600&DF=04%2f03%2f2013&Ver=2 |
| 2014/15 | £242.430m | 4.5% | £17.576 m | https://powys.moderngov.co.uk/CeListDocuments.aspx?CommitteeId=149&MeetingId=2610&DF=05%2f03%2f2014&Ver=2 |
| 2015/16 | £237.980m | 4% | £11.634 m | https://powys.moderngov.co.uk/CeListDocuments.aspx?CommitteeId=149&MeetingId=2617&DF=11%2f02%2f2015&Ver=2 |
| 2016/17 | £237.100m | 4.25% | £10.004 m | https://powys.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=2800 |
| 2017/18 | £240.600m | 3.9% | £9.616m | https://powys.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=3268 |
| 2018/19 | £247.215m | 5% | £8.357m | https://powys.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=3966 |
| 2019/20 | £255.186m | 9.5% | £11.653m | https://powys.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=4521 |
| 2020/21 | £269.440m | 4.8% | £10.797 m | https://powys.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=5459 |
| 2021/22 | £280.664m | 2.9% | £11.829 m | https://powys.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=6442 |
| 2022/23 | £302.323m | 3.39% | £7.668m | https://powys.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=7070 |
| 2023/24 | £326.554m | 5% | £16.516 m | https://powys.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=7702 |

Doedd dim cwestiwn atodol.

7.2. **Cwestiwn i Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol gan Nigel Williams**

**Sut, ar adeg pan mae'r cyngor yn cael trafferth bodloni ei rwymedigaethau statudol, gall y cyngor gyfiawnhau gwario £300,000 o arian trethdalwyr ar "ail-ddychmygu'r" Cyngor? Mae'r cyhoedd am gael gwasanaethau yn hytrach nag arwyddeiriau bachog sy'n golygu dim.**

**Ymateb**

Mae pwysau ariannol cynyddol a phwysau cynyddol ar y gweithlu'n effeithio ar allu gwasanaethau cyhoeddus i fodloni anghenion y boblogaeth. Mae angen trawsnewid Cyngor Sir Powys mewn ffordd radical, gan ddefnyddio llai o asedau ar draws y Cyngor, chwalu seilos rhwng gwasanaethau a lleihau'r darnio o ran cyflenwi gwasanaethau.

Mae'n rhaid inni fod yn fwy effeithiol, perfformio'n well a chael gwell cysylltiadau gyda'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu.

Mae angen inni ail-ddychmygu Cyngor Sir Powys yn 2025, y math a nifer y gwasanaethau y gallwn eu cynnig er mwyn sicrhau fod y sefydliad yn fwy cynaliadwy, gan symud i ffwrdd o doriadau blynyddol i wasanaethau.

Does dim amheuaeth y bydd y sefydliad yn llai ei faint ac yn fwy effeithlon trwy ddefnyddio technoleg lle bo'n briodol i wella'r ffordd o gyflenwi gwasanaethau. Bydd gofyn dal llai o asedau, ond ar yr un pryd darparu gwasanaethau hygyrch ar draws ardaloedd cymunedol.

Ar ôl inni adnabod y math a nifer y gwasanaethau i'w darparu gan y Cyngor, byddwn yn sicrhau eu bod o safon, gan gynnig yr opsiwn gorau o safbwynt gwerth i drigolion Powys.
Oherwydd y rhesymau hyn, teimlir ei fod yn angenrheidiol defnyddio'r gronfa adfer yn sgil COVID i drefnu capasiti ychwanegol dros dro. Bydd hyn yn golygu penodi, i swyddi dros dro, swyddogion i reoli'r rhaglen, cefnogi a chostio Cyngor y dyfodol.

Doedd dim cwestiwn atodol.

7.3. **Cwestiwn i Aelod y Cabinet ar gyfer Cysylltu Powys gan James Holloway**

**Ydy Cyngor Sir Powys yn cefnogi Ffermydd Tyrbinau Gwynt ar y Tir, ac os felly, ydy'r Cyngor wedi ystyried y cyfrwng h.y. y seilwaith sydd ei angen i anfon ynni at y Grid Cenedlaethol?**

**Ymateb**

Mae Cyngor Sir Powys wedi cyhoeddi argyfyngau hinsawdd a natur, a newydd fabwysiadau'r cynllun corfforaethol 'cryfach, tecach, gwyrddach' lle mae ein cyfrifoldebau cyffredin o ran bodloni'r targed o sero net erbyn 2030 ac ymrwymiadau i'r amgylchedd naturiol, yn edefyn aur. Felly mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddor o greu ynni adnewyddadwy a charbon isel i fodloni anghenion ynni'r dyfodol yn unol â thargedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ynni gwynt ar y tir fel rhan o ystod o atebion adnewyddadwy. Lle daw cynigion ar gyfer ffermydd gwynt neu'r seilwaith trosglwyddo gerbron yr Awdurdod i'w hystyried neu eu penderfynu, caiff y rhain eu hystyried yn eu hawl eu hunain yn unol â pholisïau cynllunio perthnasol a phrif ystyriaethau.

Cwestiwn atodol Mr Holloway oedd "Mewn perthynas â danfon ynni i'r Grid Cenedlaethol, a fydd Cyngor Sir Powys yn gwrthwynebu trosglwyddiad uwchben?"

**Ymateb**

Hoffwn ddiolch i James Holloway am ei gwestiwn atodol oherwydd mae'n caniatáu imi ehangu ar yr hyn a ddywedais eisoes.

Fel Awdurdod Cynllunio Lleol, mae'n rhaid i Gyngor Sir Powys ystyried cynigion i drosglwyddo ynni ar sail unigol, yn seiliedig ar y polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol, ac unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Mewn perthynas â Chyngion Datblygu o Arwyddocâd Cenedlaethol, caiff y rhain eu hatgyfeirio i'w hystyried gan Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, Julie James ac nid Powys fydd yn eu penderfynu, er gofynnir i swyddogion lunio Adroddiad Effaith Lleol ar unrhyw gynigion o'r fath.

Gadewch inni fod yn glir, mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom, ac mae angen cymryd camau gweithredu cyflym a phendant. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod dyfodol mwy cynaliadwy ar gyfer cymunedau Powys yn golygu bod angen inni wireddu ein targedau Sero nett ac adfer natur ac i helpu unigolion a chymunedau i wneud dewisiadau mwy deallus, gan gynnig mwy o sicrwydd o ran ynni a phontio i bwynt lle bydd pawb yn llai dibynnol ar danwydd ffosil a fewnforir. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Powys yn cydnabod yn y tymor byr i ganolig, y bydd ynni gwynt ar y tir yn rhan o'n cymysgedd ynni.

Mewn ffordd ddigon tebyg, o ran cyflenwi'r capasiti angenrheidiol ar gyfer ein cartrefi a'n cymunedau er mwyn cynhesu adeiladau a gwefru ein ceir gyda thrydan gwyrdd, bydd gofyn seilwaith trosglwyddo newydd a gwell, ar gyfer prosiectau ynni. Bydd gofyn i unrhyw ddatblygiad o'r fath ddangos mantais bioamrywiaeth net a'r gallu i liniaru niwed gweledol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae gwerth y dirwedd yn uchel, gan osod y seilwaith dan y ddaear lle bo'n ymarferol. Beth bynnag, byddaf yn galw ar ddatblygwyr i gynnal ymgynghoriadau arwyddocaol gyda chymunedau i egluro eu cynigion ochr yn ochr â'r costau a buddion ein helpu i ddatgarboneiddio ein cadwyn cyflenwi ynni a sut y gall Cymunedau Powys elwa o'n hadnoddau gwynt.

7.4. **Cwestiwn i Aelod y Cabinet ar gyfer Powys fwy Llewyrchus gan David Balmer-Cribb**

**Pa gynnydd a wnaeth CSP mewn perthynas ag adolygu Canolfannau Hamdden y Sir a chael cynllun yn ei le i wella cyfleusterau a sicrhau eu dyfodol hirdymor? Mae Canolfannau Hamdden wrth galon cymunedau anghysbell, gan ddarparu addysg, cyfle i ryngweithio ar lefel gymdeithasol a llesiant. Fel rhan o'r cwestiwn hwn, cyfeiriaf at yr adolygiad a addawwyd ym mis Rhagfyr 2022.**
Datganiad ynghylch adolygiad o wasanaethau hamdden - Cyngor Sir Powys

**Ymateb**
Mae camau cynllunio'r adolygiad cynhwysfawr o'r Gwasanaethau hamdden wedi dechrau, a sefydlwyd Cyrch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Prosiect. Bydd Gweithgor Craffu, sydd i fod i gael ei sefydlu yn ystod yr wythnosau nesaf, yn ystyried y Cylch Gorchwyl. Bydd nifer o swyddogion ynghlwm wrth yr Adolygiad Hamdden, fydd yn rhan o fwrdd prosiect, a byddant yn -

- Cytuno cwmpas a chanlyniadau / allbynnau arfaethedig yr adolygiad.
- Cydlynu'r gwaith a'r ffrydiau gwaith a gytunir.
- Cefnogi ac yn symud proses Adolygiad Hamdden Cyngor Sir Powys ymlaen – gan ddarparu manylion cyson i hysbysu'r adolygiad ac unrhyw argymhellion.
- Agored a thryloyw o ran unrhyw ymrwymiadau, gan ddangos cydweithredu/rhannu gwybodaeth mewn ffordd gadarnhaol, ragweithiol, broffesiynol a phriodol.
- Rheoli ac yn cyfathrebu mewn ffordd gyson a phriodol trwy sianeli a gytunir.
- Sicrhau y cynhelir ymgysylltiad â'r cyhoedd mewn ffordd amserol a phroffesiynol, gan gynnwys ystod eang o randdeiliaid a phartïon sydd â diddordeb.
- Codi problemau cyn gynted ag y byddant yn dod i'r amlwg, a chydweithio i gyrraedd ateb. Ceisio sicrwydd / her gan Graffu'r Cyngor o dro i dro.
- Sicrhau fod pawb sy'n gysylltiedig/angenrheidiol yn deall rolau a chyfrifoldebau a lefelau ymrwymiad y prosiect.
- Uwchgyfeirio materion i uwch arweinyddion y Cyngor.
- Adrodd yn rheolaidd i Bowys, gan gynnwys Freedom Leisure lle bo'n briodol.

Diben/canlyniad yr adolygiad yw – penderfynu ar gynaliadwyedd hirdymor darpariaeth hamdden ym Mhowys, a sicrhau cyfleusterau addas i'w pwrpas ar gyfer cymunedau yn y dyfodol – fydd yn ategu, yn cyfrannu ac yn gweddu i amcanion, canlyniadau a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.

Y bwriad hefyd yw cynnal ymarfer ymgysylltiad llawn â'r cyhoedd yn ystod y misoedd nesaf, a bydd manylion o ran sut i gyfrannu at hyn ar gael yn fuan. Disgwylir i'r prosiect barhau am ryw saith mis, a chyflwynir opsiynau / argymhellion i'r Cabinet. Wedyn cynhelir ymgynghoriad pellach gyda phawb sydd â diddordeb a rhanddeiliaid.

Doedd dim cwestiwn atodol.

| 8. | TRETH Y CYNGOR – PENDERFYNIAD 2023/24 |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried y penderfyniad ar gyfer Treth y Cyngor 2023/24. Cynigiodd y Cynghorydd Sir Jake Berriman ac eiliodd y Cynghorydd Sir Sandra Davies a gyda 48 o blaid, 3 yn erbyn ac 11 yn atal pleidlais:

**PENDERFYNWYD**

1. **Y DYLAI'R Cyngor dderbyn y symiau a nodir ym mharagraff 3.1 uchod am y flwyddyn 2023/2024 yn unol ag Adrannau 32 -36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992.**

2. **Y DYLAI'R Cyngor, yn unol ag Adran 30 (2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol, 1992, osod y symiau a nodir ym mharagraff 3.3 uchod fel symiau Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/2024 ar gyfer pob yn o'r categorïau anheddiadau a ddangosir.**

| 9. | DATGANIAD POLISI CYFLOG AR GYFER 2023/24 |
|---|---|

Roedd y Cyngor wedi rhoi caniatâd i Arweinydd Proffesiynol Gwasanaethau Cyflogaeth, y Rheolwr Craffu, Rheolwr y Cabinet a'r cyfieithydd aros yn y cyfarfod i helpu gyda rhedeg y cyfarfod. Gadawodd yr holl swyddogion eraill y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei hystyried.

Bu'r Cyngor yn ystyried y Datganiad Polisi Cyflog sy'n olrhain trefniadau'r Cyngor ar gyfer talu ei gyflogeion am y flwyddyn ariannol 2023/24.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Jake Berriman ac eiliodd y Cynghorydd Sir David Thomas a gyda 62 o blaid, ac 1 yn erbyn

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog ar gyfer 2023/24.**

Dychwelodd y Swyddogion i'r cyfarfod.

| 10. | CYNNIG I ADOLYGU STRWYTHUR Y PWYLLGORAU CRAFFU A NIFER Y SEDDI AR BWYLLGORAU |
|---|---|

Bu'r Cyngor yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o ran diwygio strwythur y Pwyllgorau Craffu a nifer y seddi ar bwyllgorau. Roedd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol wedi gofyn am adolygu nifer y seddi ar bwyllgorau yn dilyn y lleihad yn nifer yr Aelodau ym mis Mai 2022 o 73 i 68.

Roedd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi argymell peidio newid y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Panel Cyllid. Cynigiodd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac eiliodd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance ac yn unfrydol:

**PENDERFYNWYD**
**(1) Peidio newid y pwyllgorau canlynol:**

- **Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau**
- **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
- **Panel Cyllid.**

Cynigiwyd Argymhellion 2, 3 a 4 i leihau nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Craffu i 11 gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Morgan. Siaradodd nifer o aelodau yn erbyn yr argymhelliad, gan ddadlau bod cael mwy o aelodau'n cynnig amrywiaeth farn ehangach. Cynigiodd y Cynghorydd Sir Aled Davies ac eiliodd y Cynghorydd Sir Iain McIntosh y dylid cyfeirio argymhellion 2 – 11 yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w hystyried ymhen 12 mis. Collwyd y cynnig hwn gyda 28 o blaid, 31 yn erbyn a 4 yn atal pleidlais.

Pleidleisiodd y Cyngor ar Argymhellion 2, 3 a 4 i leihau nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Craffu i 11 a gyda 34 o blaid, 28 yn erbyn a 2 yn atal pleidlais:

**PENDERFYNWYD**

**(2) Y dylid lleihau nifer y seddi ar y tri phwyllgor craffu i 11 Aelod, (yn ogystal ag Aelodau Cyfethol lle bo angen).**

**(3) y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro lunio diwygiadau i Adran 7 y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yn argymhelliad 2 uchod.**

**(4) y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro fonitro presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd craffu.**

Cynigodd y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan dderbyn argymhellion 5, 6 a 7 i leihau nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau, a Phwyllgor y Ddeddf Trwyddedu 2003, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Morgan, a gyda 34 o blaid, 27 yn erbyn a 3 yn atal pleidlais

**PENDERFYNWYD**

**(5) lleihau nifer yr aelodau ar Bwyllgorau Eraill (Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau; Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003) i 11 Aelod.**

**(6) y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro baratoi diwygiadau i Adran 9 y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yn argymhelliad 5 uchod.**

**(7) y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro fonitro presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd craffu.**

Cynigiwyd argymhellion 8 a 9 i leihau nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy i 17 aelod gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman, a gyda 34 o blaid, 28 yn erbyn a 2 yn atal pleidlais:

**PENDERFYNWYD**

**(8) lleihau nifer y seddi ar y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy i 17 Aelod.**

**(9) y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro lunio diwygiadau i Adran 9 y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yn argymhelliad 8 uchod.**

Cynigiwyd argymhellion 10 ac 11 i newid teitlau a chyfrifoldebau'r Pwyllgorau Craffu gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Danny Bebb. Siaradodd Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal a'r Pwyllgor Dysgu a Sgiliau yn erbyn y cynnig. Gyda 23 o blaid, 36 yn erbyn a 3 yn atal pleidlais, collwyd y cynnig.

Cynigiwyd argymhellion 12 ac 13 i newid aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Glyn Preston a gyda 51 o blaid, 4 yn erbyn a 3 yn atal pleidlais:

**PENDERFYNWYD**

**(12) Diwygio aelodaeth Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel a ganlyn, o ddyddiad y CCB ym mis Mai 2023:-**

**Cyfanswm o 9 aelod.**

- **Is-gadeiryddion y 3 Phwyllgor Craffu**

**Ynghyd â**

- **2 gynrychiolydd ychwanegol gan bob un o'r pwyllgorau craffu (ar sail cydbwysedd gwleidyddol a seilir ar Bwyllgor o 6)**

**Cydbwysedd gwleidyddol: Annibynwyr (1); Ceidwadwyr (1); Democratiaid Rhyddfrydol (2) Llafur (1), Aelodau Annibynnol Powys (1)**

**(13) Y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro baratoi diwygiadau i Adran 7 y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yn argymhelliad 12 uchod.**

Datganwyd diddordeb ariannol gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts yn yr argymhelliad canlynol, a gadawodd y cyfarfod wrth i'r argymhelliad gael ei ystyried. Cynigiwyd Argymhelliad 14 i gadw cyflog Cadeirydd y Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Ange Williams. Dadlwyd, gan nad oedd y Cadeirydd, yn cadeirio'r panel apeliadau bellach, ni ddylai'r swydd olygu cyflog. Gyda 21 o blaid, 31 yn erbyn a 7 yn atal pleidlais, collwyd y cynnig.

Dychwelodd y Cynghorydd Sir Lucy Roberts i'r cyfarfod.

Cynigiwyd argymhelliad 15 na ddylai Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus derbyn cyflog uwch gan y Cynghorydd Sir Glyn Preston ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance a gyda 55 o blaid, 1 yn erbyn a 3 yn atal pleidlais

**PENDERFYNWYD**

**(15) na ddylai deiliad y swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Craffu'r BGC derbyn Cyflog Uwch yn unol ag adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Torrodd y Cyngor am ginio rhwng 13.40 a 14.35.

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir G W Ratcliffe (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir B Baynham, D Bebb, M Beecham, S J Beecham, B Breeze, J Berriman, L Brighouse, A Cartwright, J Charlton, R Church, T Colbert, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, M J Dorrance, J Ewing, L George, I Harrison, K Healy, P James, A Jenner, A Jones, E A Jones, E Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, P E Lewis, W Lloyd, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Johnson-Wood, G Mitchell, G Morgan, G Morgan, WD Powell, G Preston, G Pugh, L Rijnenberg, L Roberts, C Robinson, E Roderick, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, J Brignell-Thorp, E Vaughan, C Walsh, A Williams, D H Williams, J M Williams ac S L Williams

## 11. PENODIAD I'R PANEL MAETHU

Diolchwyd i'r Cynghorydd Sir Amanda Jenner oedd yn rhoi'r gorau i'w rôl ar y Panel Maethu, am ei holl waith gan y Cynghorydd Sir Sue McNicholas, Cyd-aelod y Cabinet ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol. Enwebwyd y Cynghorydd Sir Liz Rijnenberg gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Williams.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Liz Rijnenberg i'r Panel Maethu.**

## 12. RHYBUDD O GYNNIG - CYNNIG IAITH 2023 / 2023

Bu'r Cyngor yn ystyried y cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies:

“Dengys canlyniadau’r Cyfrifiad diweddar yr angen dybryd i weithredu’n ddioed ac yn gynhwysfawr mewn perthynas â’r Gymraeg ym Mhowys. Rydym wedi clywed cymaint am gynaliadwyedd amgylcheddol, a’r angen i weithredu; wel mae’r un peth yn wir am ein Cymunedau Cymraeg.

Rhwng 2011 a 2021 mae Powys wedi colli dros 2,600 o siaradwyr Cymraeg, ac mae’r canran lawr i 16% erbyn hyn. Mae hyn hefyd yn cynnwys dirywiad o 1,864 yn nifer y plant 3-15 oed sy’n gallu siarad Cymraeg.

Yn ystod blynyddoedd diweddar, Powys yw’r unig Sir yng Nghymru lle’r oedd gan ganran is fynediad at addysg Gymraeg na chanran siaradwyr Cymraeg yn y gymuned. Nid yw’n syndod felly ein bod yn gweld y ffigurau’n gostwng bob degawd.

Wrth gwrs, mae nifer o resymau dros y dirywiad: gwendid economaidd, newid yn y patrwm amaethyddol gyda llai o bobl yn gweithio ar y tir, sef y sector traddodiadol gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg; mae pobl ifanc yn symud o’r ardal, a phobl hŷn yn symud mewn; gor-ddatblygu tai mewn rhai cymunedau, nad ydynt yn wirioneddol adlewyrchu’r cymunedau hynny; ond hefyd, diffyg hanesyddol gan Gyngor Sir Powys o blaid y Gymraeg, a diffyg statws a roddwyd i’r iaith ac addysg Gymraeg. Dyna’r rheswm y mae gofyn inni hyrwyddo’r sylfaen economaidd a chael corff datblygu’n debyg i’r hen Fwrdd Datblygu Cymru Wledig.

Os bydd unrhyw arwyddocâd i gynaliadwyedd, ac os ydym am newid y sefyllfa erbyn y Cyfrifiad nesaf, mae’n rhaid inni weithredu nawr. Peidiwch â meddwl taw Powys yw’r unig sir yn y sefyllfa hon; mae cymunedau traddodiadol neu gymunedau ieithyddol hanesyddol ar draws Ewrop wedi wynebu heriau tebyg, a gallwn ddysgu gwersi, yn enwedig gan wlad y Basg mewn perthynas â’r iaith a’r economi. Mae’n rhaid inni wneud hyn fel pecyn o gamau gweithredu, sy’n cynnwys –

Felly mae’r Cyngor yn dymuno -

- Derbyn yr egwyddor fod y Gymraeg yn perthyn i bob rhan o Bowys
- Cefnogi’r alwad ar gyfer asiantaeth datblygu economaidd gwledig
- Galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn cynllun ARFOR (cynllun economaidd ieithyddol gwerth £11m yng Ngorllewin Cymru) i Faldwyn, i hyrwyddo’r Gymraeg a’r economi
- Dysgu gwersi ac efelychu’r hyn sydd wedi digwydd yn ANDOAIN yng ngwlad y Basg trwy blethu gweithgaredd economaidd ac iaith trwy greu gofod mentergarwch, gyda’r teitl Kulturparkea
- Cefnogi datblygu cynllun twristiaeth diwylliannol sy’n manteisio i’r eithaf ar gyfoeth hanes y sir megis Sycharth, Bryngl as, Cilmeri, Canolfan Glyndŵr ac ati, gan sicrhau fod Powys yn rhan o’r dyfodol cymaint â’r gorffennol.
- Sicrhau cynaliadwyedd y Gymraeg fel rhan integredig o’r Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Sicrhau fod arwyddion masnachol ledled y Sir yn ddwyieithog yn y Cynllun Datblygu newydd
- Gosod nod o gynyddu canran siaradwyr Cymraeg rhugl mewn gweithleoedd y Cyngor i 16% i gynrychioli cymdeithas
- Gweithdy ymwybyddiaeth iaith ar gyfer holl aelodau’r Cyngor, yn ogystal â’r gweithlu

- Symud 12 ysgol gynradd ar hyd y continwwm iaith, neu greu darpariaeth Gymraeg/ysgolion Cymraeg newydd lle nad yw’r opsiwn hwnnw’n bodoli fel mater o frys
- Sefydlu 3 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd cyn gynted â phosibl
- Cynyddu’r ddarpariaeth TROCHI er mwyn hwyluso dwyieithrwydd.

Cynigiwyd gwelliant gan y Cynghorydd Sir Richard Church a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Glyn Preston oedd yn cynnig ychwanegu’r canlynol:

“I ychwanegu at y rhestr o gamau gweithredu:-

- Nodi’r dystiolaeth gynyddol fod unigolion dwyieithog yn elwa o nifer o fanteision sy’n fuddiol i iechyd, sgiliau dysgu a ffyrdd o fyw, gan gynnwys y gallu i ganolbwyntio’n well, gwell perfformiad mewn profion IQ ac arholiadau, arafu cyrhaeddiad dementia a’r gallu i ddysgu ieithoedd eraill, ac rydym yn gofyn i’r Cyngor hyrwyddo buddion dwyieithrwydd trwy addysg cyfrwng Cymraeg i iechyd, sgiliau dysgu a ffyrdd o fyw unigolion o fewn yr adnoddau sydd ar gael eisoes ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg.”

Nododd cynigydd y cynnig ei fod yn hapus i dderbyn y gwelliant. Derbyniodd welliant arall sy’n galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn cynllun ARFOR i Bowys gyfan er mwyn hyrwyddo’r Gymraeg a’r economi, ac i ofyn i Weithgor y CDLl wneud cais fod Gweithgor y Cynllun Datblygu Lleol, wrth fynd i’r afael â’r Cynllun Datblygu newydd, yn ystyried cyflwyno polisi cynllunio priodol sy’n golygu bod gofyn i eiddo masnachol, sy’n gwneud ceisiadau dan y Rheoliadau Ystyriaeth, arddangos arwyddion dwyieithog. Wrth ymateb i gwestiynau am ddarparu ysgolion newydd, nododd y Cynghorydd Vaughan fod hyn eisoes yn rhan o’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd gan y weinyddiaeth flaenorol ac a gadarnhawyd gan y weinyddiaeth bresennol a Llywodraeth Cymru. Nid oedd yn golygu adeiladu ysgolion newydd, ond symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol yn hytrach.

Cytunwyd ar y cynnig gyda 46 o blaid, 2 yn erbyn a 5 yn atal pleidlais, a daeth yn brif gynnig. Rhoddwyd y prif gynnig gerbron y cyfarfod, a gyda 49 o blaid, 0 yn erbyn, a 3 yn atal pleidlais

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr egwyddor fod y Gymraeg yn perthyn i bob rhan o Bowys**
- **Cefnogi’r alwad ar gyfer asiantaeth datblygu economaidd gwledig**
- **Galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn cynllun ARFOR (cynllun economaidd ieithyddol gwerth £11m yng Ngorllewin Cymru) i Bowys, i hyrwyddo’r Gymraeg a’r economi**
- **Dysgu gwersi ac efelychu’r hyn sydd wedi digwydd yn ANDOAIN yng ngwlad y Basg trwy blethu gweithgaredd economaidd ac iaith trwy greu gofod mentergarwch, gyda’r teitl Kulturparkea**

- **Cefnogi datblygu cynllun twristiaieth diwylliannol sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfoeth hanes y sir megis Sycharth, Bryngglas, Cilmeri, Canolfan Glyndŵr ac ati, gan sicrhau fod Powys yn rhan o'r dyfodol cymaint â'r gorffennol.**
- **Sicrhau cynaliadwyedd y Gymraeg fel rhan integredig o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd**
- **Gofyn i Weithgor y Cynllun Datblygu Lleol, wrth fynd i'r afael â'r Cynllun Datblygu newydd, ystyried cyflwyno polisi cynllunio priodol sy'n golygu bod gofyn i geisiadau a wneir dan y Rheoliadau Ystyriaeth ar gyfer eiddo masnachol arddangos arwyddion dwyieithog.**
- **Gosod nod o gynyddu canran siaradwyr Cymraeg rhugl mewn gweithleoedd y Cyngor i 16% i gynrychioli cymdeithas**
- **Gweithdy ymwybyddiaeth iaith ar gyfer holl aelodau'r Cyngor, yn ogystal â'r gweithlu**
- **Symud 12 ysgol gynradd ar hyd y continwwm iaith, neu greu darpariaeth Gymraeg/ysgolion Cymraeg newydd lle nad yw'r opsiwn hwnnw'n bodoli fel mater o frys**
- **Sefydlu 3 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd cyn gynted â phosibl**
- **Cynyddu'r ddarpariaeth TROCHI er mwyn hwyluso dwyieithrwydd.**
- **Nodi'r dystiolaeth gynyddol fod unigolion dwyieithog yn elwa o nifer o fanteision sy'n fuddiol i iechyd, sgiliau dysgu a ffyrdd o fyw, gan gynnwys y gallu i ganolbwyntio'n well, gwell perfformiad mewn profion IQ ac arholiadau, arafu cyrhaeddiad dementia a'r gallu i ddysgu ieithoedd eraill, ac rydym yn gofyn i'r Cyngor hyrwyddo buddion dwyieithrwydd trwy addysg cyfrwng Cymraeg i iechyd, sgiliau dysgu a ffyrdd o fyw unigolion o fewn yr adnoddau sydd ar gael eisoes ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg.**

**Y Cynghorydd Sir G W Ratcliffe (Cadeirydd)**